**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT Y CABINET**

**DYDD IAU, 25 TACHWEDD 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: A.R.Lockyer a/ac P.A.Rees (Cadeirydd)

**Swyddogion yn bresennol:**

I.Guy, R.Crowhurst, J.Burge, C.Glover, Ms.A.Harris, H.Lewis, A.Spooner-Cleverly, C.Plowman a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd P A Rees yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod. Roedd pob un ohonynt wedi cael goddefebau i siarad a phleidleisio ar faterion ysgol.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P A Rees | Cofnod Rhif 6 – Polisi Derbyniadau Ysgolion, gan ei fod yn Llywodraethwr mewn dwy ysgol yn CNPT. |
| Y Cynghorydd A R Lockyer | Cofnod Rhif 6 - Polisi Derbyniadau Ysgolion, gan ei fod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd y Gnoll ac yn Llywodraethwr yng Nghastell-nedd. |
| Y Cynghorydd S Reynolds | Cofnod Rhif 6 – Polisi Derbyniadau Ysgolion, gan ei bod yn Llywodraethwr yn YGG Gwauncaegurwen. |

Y Cynghorydd R Mizen    Cofnod Rhif 6 - Polisi Derbyniadau Ysgolion, gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cwmafan ac Ysgol Cwm Brombil.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Hydref ac 1 Tachwedd 2021.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022**

Nodi Blaenraglen Waith 2021/22.

5. **ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTEROL CHWARTER 2 2021/22**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad monitro.

6. **POLISI DERBYNIADAU YSGOL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo’r Polisi Derbyniadau Ysgolion Cymunedol 2023/2024 arfaethedig, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ar gyfer ymgynghori.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i gyflawni dyletswyddau statudol a chanllawiau arfer da mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

## 7. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**Penderfyniad:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 290, eithrio'r cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol sy'n cynnwys y datganiadau posib o wybodaeth eithriedig fel a nodwyd ym Mharagraff 14 Adran 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 8. TREFNIADAU COMISIYNU TEULUOEDD YN GYNTAF

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyo estyniad blwyddyn i gontractau a chytundebau ar gyfer gwasanaethau a ariennir drwy'r grant Teuluoedd yn Gyntaf, o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau bod parhad y gwasanaeth yn cael ei sicrhau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**